

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Lun Mawrth 5ed 2018 am 7.00 y.h.

### Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen, Paul Weston.
2. **Presenol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Cyngorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Chwefror:** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. BDO – dal i ddisgwyl ateb i'r e-bost.
  - 5.2. Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data – Cyng. Garffild Lewis am holi yng Nghonwy os oes modd iddynt ein helpu ar y mater.
  - 5.3. Cyflymdra heibio'r ysgol – Cyng. Garffild Lewis am gysylltu â Victor Turner eto i ofyn am esboniad o'r gwaith roeddent wedi awgrymu.
  - 5.4. CBSC – y gwaith o atgyweirio Pont Bron Cadnant wedi ei gwblhau.  
CGGC – cadarnhad fod grant o £500 i gynnal 2 sesiwn o chwarae allan yn ystod gwyliau'r haf.
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. Cartrefi Conwy – yn hysbysebu fod byngalo gwag ar gael yn y pentref i oedolion dros 55 oed.
  - 6.2. Swyddfa Archwilio Cymru – copi o adroddiad diweddar ar reolaeth ariannol o llywodraethiant mewn cynghorau lleol - wedi ei anfon ymlaen i'r Cyngorwyr.
7. **Un Llais Cymru:**

Cais gan y gymdeithas i ymaelodi eto'r flwyddyn yma am ffi o £46. Cynigwyd y byddwn yn ymaelodi a chael cadarnhad i dalu'r aelodaeth y mis nesaf.
8. **Monitro'r Gyllideb\;**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
9. **Saith Maes Allweddol:**

Methwyd a'i trafod a'u mabwysiadu gan nad oedd cworwm.
10. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Cafwyd gair gan y Cyngorydd Sirol a dywedodd bydd y dreth yn codi 5% y flwyddyn ariannol nesaf.
11. **Unrhyw fater arall:**
  - 11.1. Llythyr gan bennaeth yr Ysgol Gynradd – gan fod y disgyblion wedi creu poster o waith celf lliwgar yn hysbysu 'arafwch' gofynnwyd i'r Cyngor eu cefnogi a thalu am 4 poster ar arwyddion plastig cryf i'w gosod tu allan i'r ysgol. Ar gost o tua £15 yr arwydd cynigiodd Gerallt Jones gyda Edmund Rees yn eilio ein bod yn symud ymlaen gyda'r cais a hefyd gofyn i'r Corff Llywodraethu hefyd gefnogi a thalu am 4 poster arall.
  - 11.2. Archwilydd Mewnol – gan nad ydyw Iona Edwards Llanrwst wedi ymateb i'r llythyr penderfynwyd gofyn i Hill a Roberts Bala ymgymryd ar gwaith.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Ebrill 9fed 2018 am 7.00 y.h.**

Arwyddwyd                     **G B Jones**                      
Cadeirydd

Dyddiad 09.04.18

